

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIYD AR NOS
FAWRTH 14EG O FAWRTH 2017 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R
GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd (Cadeirydd), Clwyd Thomas, Deryl Roberts, Gwyn Howatson, Medwyn Jones, Sian Davies, Ian Hession, Mike Denman, Dewi Roberts, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 10fed o Ionawr 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych bod y cafna Llwybr Cyhoeddus yng nghae wrth Clwydfro Rhewl wedi ei thorri gan Gontractwr Ffensi a gofynni'r i'r perchennog y cae thrsio'r gafna.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, ynglŷn ar ganlynol:-

1. Mae'r Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn monitro'r cyflwr pontydd Plas-yr-Esgob, Rhewl ar Afon Clywedog ar y A525 yn Rhewl.

2. Mae'r Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych wedi hysbysu'r person sydd yn byw yn y Garafán wrth Llŷn Llanynys ei fod yn byw yn y Garafán heb gais cynllunio ac mae hyd at 28ain o Rhagfyr 2017 i roi cais cynllunio ymlaen neu symud allan o'r Garafán.

3. Mae'r Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu'r safle Maes Parcio ar y datblygiad tai newydd Cwrt Arthur yn Rhewl.

4. DIFFIBRILIWR RHEWL.

Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Gynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, ynglŷn â'r "Diffibriliwr" i bentref Rhewl a fydd yn cael ei lleoli ar wal y "Drovers Arms" yn Rhewl. Y gost i brynu'r offer yw £777.00 ar gabinet am £335.00. Mae'r Cyngorydd Parry wedi derbyn y rhoddion canlynol at gostau'r Diffibriliwr:-

A: Just Giving - £163.78.

B. Rhoddion arian - £648.50.

C. Ganolfan Llanbedr Dyffryn Clwyd - £200.00.

D. Grŵp Cynefin - £200.00.

E. Clwb Garddio Rhewl - £100.00.

F. Y Tad R.P. Owen - £25.00.

Diolchwyd i'r Cyngorydd Parry am ei waith ar roddion i'r prosiect.

5. CYLLID.

Taliadau:-

A: Un llais Cymru - Tal Aelodaeth 2017/18 - £91.00.

B. Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliwr Allanol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2016 - £173.25.

C. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 - £400.00.

D. PAYE (Treth Gyflog) am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 - £100.00.

E. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 - £705.00.

F. Cwrs hyfforddi "Ymgynghoriad Cymunedol cyn gwneud cais" - £16.43.

G. Gwasanaeth Ambiwlans – Diffibriliwr a'r Cabinet" - £1,112.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Adeiladu modurdy a storfa ar wahân yn y "Shippon", Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl.
2. Adeiladu modurdy a storfa ar wahân yn Cysgod-y-Coed, Llanrhaeadr.
3. Codi adeilad unllaw'r yn yr "Firearms Training Complex", Criag-y-Ddywart, Rhewl.

B. Mae'R Arolygaeth Gynllunio wedi gwrthod yr apêl newid defnydd tir amaethyddol i ardal cwrtil domestig a chodi garej a stordy adeilad ar wahân ym Mhlas Isaf, Rhewl.

C. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Creu mynedfa fferm newydd yn Bod Ynys, Rhewl (derbyniwyd datganiad diddordeb ynglŷn ar gais gan y Cynghorydd Dewi Roberts a gadawodd yr ystafell).
2. Codi to dros iard casglu gwartheg presennol i ffurfio parlwr godro ym Machymbyd Fawr, Llanrhaeadr.
3. Amrywio amod rhif 8 o ganiatâd cynllunio 23/2005/1080 i ganiatáu i'r anecs nain i gael ei ddefnyddio fel llety gwyliau (gais ol-weithredol) yn Cysgod-y-Coed, Fron Heulog, Llanrhaeadr.
4. Codi adeilad storio amaethyddol yn Clwydfro, Rhewl.

7. ETHOLIADAU CYNGHORAU CYMUNEDOL 4YDD O FAI 2017.

Dosbarthwyd y Clerc pecyn "Papurau Enwebu" etholiadau Cynghorau Cymunedol ar 4ydd o Fai 2017 i'r aelodau presennol y Cyngor. Derbyniwyd gwybodaeth nid mae'r Cynghorwyr Gwyn Howatson, Medwyn Jones a Deryl Roberts am sefyll yn yr etholiad. Diolchwyd i'r tri Chynghorwr am eu gwasanaeth dros Gyngor Cymuned Llanynys dros y blynyddoedd.

8. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Swyddog Tai Grŵp Cynefin yn hysbysu'r Cyngor bod yna eiddo dwy lofft, pedwar person yn dod yn wag yn Rhyd-y-Byll, Rhewl ac mae'r Adran 106 ar y stad yn rhoi blaenoriaeth i bobl yn byw yn Rhewl.

B. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan y Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry:-

1. Mae'r Cyngor Sir wedi gwneud "Arolwg Traffic" wrth Bod Ynys, Rhewl ym mis Ionawr.
2. Mae "Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy" yn cynnig sedd i'r Cynghorau Cymunedol lleol ar Bwyllgorau'r Awdurdod.
3. Mae "Cadwch Gymru'n Daclus" yn cynnig cymorth i weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol.

4. Mae Grŵp Cynefin yn gofyn am yr adroddiad canlynol:-

- (i). Estyniad Pafiliwn Rhewl – Cadarnhawyd Cynghorydd Mike Denman bod yr estyniad wedi ei chwblhau.
- (ii) Pryd ddaw'r cyn "Gloch yr Eglwys" i'w arddangos yn Bafiliwn. Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwyn Howatson fod yr "Gloch" yn iard Huw Howatson yn Rhuthun a pan ddaw i'w golwg mi nai ei throsglwyddo.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. UNRHYW FATER ARALL.

Cytunodd y Cynghorydd Cyngor Sir Ddinbych, Merfyn Parry, i ofyn i'r Adran Briffyrdd am amserlen i'r ail wynebu'r ffyrdd canlynol:-

A: Ffordd heibio Bodhyfryd, Rhewl.

B: Ffordd rhwng Bod Ynys a Tyddyn Isaf yn Rhewl.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 9fed o Fai 2017 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.